Nodau Datblygu'r Mileniwm
Nod Datblygu'r Mileniwm 2 – Sicrhau addysg gynradd i bawb

Gwybodaeth a gweithgareddau

Targed – Sicrhau, erbyn 2015, fod plant ym mhobman, bechgyn a merched fel ei gilydd, yn medru cwblhau cwrs llawn o addysg gynradd.

Mae addysg yn hanfodol ar gyfer herio tlodi ac afiechyd. Mae'n creu mwy o gyfleoedd i bobl, ac yn rhoi llais cryfach iddynt yn y gymdeithas. Heb addysg, ni ellir cael datblygiad – personol, economaidd na chymdeithasol.

Yn 1990, addunedodd nifer o wledydd i sicrhau addysg gynradd i bob plentyn erbyn y flwyddyn 2000. Fodd bynnag, methwyd cyrraedd y targed. Mae 72 miliwn o blant o hyd heb ysgol. Mae'r mwyafrif mewn gwledydd sy'n datblygu, a 40 miliwn ohonynt yn ferched.

Er mwyn cyflawni'r targed hwn erbyn 2015, rhaid i lywodraethau sicrhau fod pob plentyn nid yn unig yn cofrestru mewn ysgol gynradd, ond hefyd yn cwblhau eu haddysg gynradd. Ar hyn o bryd, 52 yn unig allan o 155 o wledydd sy'n datblygu sydd wedi sicrhau fod pawb yn cwblhau addysg gynradd.

Ymysg y gweithgareddau ar gyfer y nod hwn

Astudiaeth achos Mali
Gwybodaeth am athro ym Mali.

Pam na all rhai plant fynd i'r ysgol?
Trafodaeth dosbarth am y rhesymau pam na all rhai plant fynychu'r ysgol. Edrych ar ddyfyniadau gan blant nad ydynt yn medru mynychu ysgol.

Addysg a gwrthdaro
Archwilio'r cysylltiadau rhwng gwrthdaro a diffyg addysg: stori plentyn o filwr yn Liberia.

Nod Datblygu'r Mileniwm 2 – Sicrhau addysg gynradd i bawb

Targed – Sicrhau, erbyn 2015, fod plant ym mhobman, bechgyn a merched fel ei gilydd, yn medru cwblhau cwrs llawn o addysg gynradd.

Mae addysg yn hanfodol ar gyfer herio tlodi ac afiechyd. Mae'n creu mwy o gyfleoedd i bobl ac yn rhoi llais cryfach iddynt mewn cymdeithas. Heb addysg, ni ellir cael datblygiad – personol, economaidd na chymdeithasol.

Mae rhywfaint o gynnydd tuag at y nod hwn. Yn 1990, roedd 140 miliwn o blant ledled y byd heb fedru mynd i'r ysgol, ond erbyn 2005 roedd y nifer hwn wedi syrthio i 72 miliwn, 40 miliwn ohonynt yn ferched.[1] Er mwyn cyrraedd y nod hwn erbyn 2015, rhaid i lywodraethau sicrhau fod plant nid yn unig yn cofrestru mewn ysgolion cynradd, ond hefyd yn cwblhau eu haddysg gynradd. Ar hyn o bryd, 52 allan o 155 o wledydd sy'n datblygu sydd wedi sicrhau fod pawb yn cwblhau addysg gynradd.[2]

Mae nifer o wledydd yn agos at sicrhau addysg gynradd i bawb, ac eto mewn gwledydd a rhanbarthau eraill mae'r dasg yn parhau i fod yn enfawr. Yn Affrica Is-Sahara er enghraifft, roedd tua 33 miliwn o blant oedran cynradd allan o'r ysgol yn 2005,[3] sy'n golygu fod y rhanbarth yn gartref i bron i hanner y plant oedran cynradd sydd allan o'r ysgol. Yn Ne Asia mae 17 miliwn yn parhau i fod allan o'r ysgol, dwy ran o dair ohonynt yn ferched.[4] Yn aml mae pethau eraill yn cael blaenoriaeth dros addysg. Mae Newid Hinsawdd wedi achosi llifogydd a sychder difrifol mewn rhai gwledydd. Mae'n amharu ar addysg, ac mae arian yn cael ei ddargyfeirio at argyfyngau a achoswyd gan y tywydd.

Mae athrawon hyfforddedig yn hanfodol ar gyfer gallu gwlad i addysgu'i phlant. Bydd angen tua 15 miliwn o athrawon cynradd newydd erbyn 2015 er mwyn sicrhau addysg gynradd i bawb. Yn aml ni all llywodraethau gwledydd sy'n datblygu fforddio talu am hyn heb dderbyn y cymorth a addawyd gan wledydd cyfoethocach. Rhaid i wledydd cyfoethocach roi'r swm cywir o gymorth, yn y ffordd iawn, er mwyn helpu gwledydd tlotach i ddarparu addysg sylfaenol ar gyfer pob plentyn.

Am fwy o wybodaeth am yr ymgyrch gyfredol i sicrhau addysg gynradd i bawb, gweler www.campaignforeducation.org.

1 Ymgyrch Mileniwm y CU: www.millenniumcampaign.org

2 Fast Track Initiative 2008: www.efafasttrack.org/default.asp

3 *Education for All by 2015: Will we make it? EFA Global Monitoring Report 2008*, UNESCO

4 *Education for All by 2015: Will we make it? EFA Global Monitoring Report 2008*, UNESCO

Ysgol ym Mali



Mae Aboucrine Ag Tadima yn athro ym mhentref anghysbell Intadeyni ar gyrion anialwch y Sahara ym Mali. Yn y llun hwn mae'n dysgu addysg iechyd sylfaenol i'w ddosbarth. Mae tua 250 o ddisgyblion yn yr ysgol, a adeiladwyd 20 mlynedd yn ôl; cyn hynny, roedd y plant yn aros adref ac yn helpu gyda'r gwaith tŷ a'r anifeiliaid (geifr a chamelod). Roedd y gymuned yn byw bywyd bugeiliol traddodiadol, gyda'r dynion yn mynd â'r anifeiliaid i ddod o hyd i ddŵr a thyfiant lle bynnag yr oedd yn bosibl dan yr amodau sych. Roedd y menywod yn gwneud gwaith tŷ ac yn tyfu ychydig o fwyd yn y tymor gwlyb.

Roedd y pentrefwyr eisiau'r cyfleoedd y byddai addysg yn ei roi iddynt hwy a'u plant, ac felly adeiladwyd ysgol a pherswadiwyd y llywodraeth i anfon athro atynt. Meddai Aboucrine fod pobl yn Intadeyni yn gwerthfawrogi addysg, nid yn unig gan ei fod yn cynnig gwell cyfleoedd cyflogaeth, ond hefyd gan fod buddiannau i'r holl deulu: gwell ymwybyddiaeth am faterion iechyd, sgiliau busnes, hunan hyder ac annibyniaeth.

Serch hynny, Mali yw un o'r gwledydd tlotaf yn y byd, ac mae cyflog athrawon yn isel. Ni all y llywodraeth fforddio anfon yr athrawon i gael hyfforddiant ychwanegol, na hyd yn oed dalu am ddigon o lyfrau, byrddau duon, desgiau a'r holl bethau eraill angenrheidiol i gynnal yr ysgol.

Meddai Aboucrine 'Mae'r rhieni yn dweud wrthyf fy mod yn esiampl dda i'w plant – i weld rhywun o'u cymuned eu hunain yn cael addysg dda ac yn gwneud yn dda. Mae hynny'n fy ngwneud yn hapus iawn.'

Gweithgaredd Poster (7–11 oed)

Bydd angen

- Byrlymau meddyliau ar bapur gludiog

1. Gofynnwch i'r disgyblion edrych yn ofalus ar y poster, a dywedwch mai enw'r dyn hwn yw Aboucrine Ag Tadima.
2. Gofynnwch iddynt ble mae Aboucrine. A yw'n hapus yno, yn eu barn hwy? Beth mae'n ei ddweud?
3. Trafodwch feddyliau Mr Ag Tadima a'i ddisgyblion, nodwch hwy ar y byrlymau meddyliau a'u sticio ar y llun. Darllenwch y stori a thrafodwch y sefyllfa.
4. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl eto am y byrlymau meddyliau o amgylch y llun. A oes angen newid rhai ohonynt? Pa fyrlymau meddyliau ddylid eu hychwanegu?

Gweithgaredd dyfyniadau (9–14 oed)

Mewn grwpiau, dylai disgyblion drafod y dyfyniad ar y poster a phenderfynu a ydynt yn cytuno neu beidio. Dylid rhoi rhesymau dros eu barn.

Gweithgaredd 2.1

Meddwl am yr ysgol (7–14 oed)

Nod

- Archwilio agweddau tuag at yr ysgol ac addysg.

Bydd angen

- Gofod i wneud y gweithgaredd hwn – gellid clirio gofod yn yr ystafell ddosbarth neu ddefnyddio'r neuadd, neu fynd tu allan.

1. Clustnodwch un ochr o'r ystafell fel 'Cytuno' a'r ochr arall fel 'Anghytuno'.
2. Darllenwch y datganiadau isod (neu defnyddiwch eich datganiadau eich hun) a gofynnwch i'r disgyblion osod eu hunain ar hyd llinell ddychmygol rhwng dwy ochr yr ystafell, yn dibynnu pa mor gryf y maent yn cytuno neu anghytuno gyda phob datganiad.
3. Anogwch y disgyblion i drafod pam iddynt ddewis eu safle penodol.
4. Anogwch y disgyblion i awgrymu datganiadau eraill.

Datganiadau Cytuno/Anghytuno

- Dylai pawb fedru mynd i'r ysgol.
- Ni ddylai athrawon godi'u lleisiau.
- Ni ddylai disgyblion orfod cyrraedd eu gwersi'n brydlon.
- Dylai pawb fedru siarad yn y dosbarth pryd bynnag maent yn dewis.
- Dylai disgyblion fedru gwisgo unrhyw beth yn yr ysgol.

Gweithgaredd 2.2

Pam fod yr ysgol yn bwysig? (7–14 oed)

Nodau

- Archwilio agweddau tuag at yr ysgol a'r buddiannau a gawn ohono.
- Archwilio canlyniadau peidio mynychu'r ysgol.

Bydd angen

- Y poster hwn, wedi'i arddangos
- Copi o Ysgol ym Mali i gyfeirio ato.

1. Darllenwch Ysgol ym Mali i'r dosbarth, a gofynnwch iddynt ystyried pam fod addysg mor bwysig i'r pentref.
2. Gofynnwch i'r disgyblion drafod mewn parau pam fod addysg yn bwysig iddynt, yna gyfnewid eu syniadau mewn grwpiau o bedwar. Gofynnwch i'r grwpiau roi adborth i'r holl ddosbarth.
3. Fel dosbarth, dewiswch y naw rheswm pwysicaf dros bwysigrwydd addysg. Nodwch hwy ar y bwrdd.
4. Gofynnwch i ddisgyblion weithio mewn grwpiau o bedwar a graddio'r naw rheswm yn ôl pwysigrwydd, ar drefn diemwnt. (Gall disgyblion iau raddio yn y ffordd arferol.) Gofynnwch i'r grwpiau egluro'u penderfyniadau. Trafodwch rai o'r materion a gododd.



- Yn olaf, gofynnwch i'r disgyblion ystyried canlyniadau peidio cael addysg.

Gweithgaredd 2.3

Nod

- Archwilio'r rhesymau pam na alla rhai plant fynd i'r ysgol.

Bydd angen

- Copi o 'Pan na allant fynd i'r ysgol' ar dudalen 6 ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion

Pam na all rhai plant fynd i'r ysgol?(9–14 oed)

1. Gofynnwch i'r dosbarth beth yw 'hawl' yn eu barn hwy.
2. Eglurwch fod addysg am ddim yn hawl dan Gonfensiwn Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig (gweler www.unicef.org/crc). Eglurwch fod hyn yn golygu y dylai pawb gael yr hawl i dderbyn addysg, ble bynnag y maent yn byw, pwy bynnag ydynt. Pam, yn eu barn hwy, y dylai pawb gael yr hawl hwn?
3. Cyfeiriwch at *Ysgol ym Mali* ac atgoffwch hwy pam fod plant ym mhentref Intadeyni ar un adeg yn methu mynd i'r ysgol. Eglurwch fod dros 72 miliwn o blant ledled y byd nad ydynt yn medru mynd i'r ysgol ar hyn o bryd. Oes modd iddynt feddwl am resymau pam nad yw plant yn medru mynd i'r ysgol? Efallai yr hoffech ofyn i'r plant ystyried rhesymau sy'n atal plant yn y DU rhag mynychu'r ysgol.
4. Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r daflen *'Pam na allant fynd i'r ysgol'* (tudalen 6) i nodi rhestr o resymau pam fod cymaint o blant yn colli eu haddysg.
5. Gofynnwch i'r dosbarth ystyried beth all wneud gwahaniaeth, a phwy sydd â'r grym i newid pethau.

Gwaith pellach (11–14 oed)

Mae Rebecca (chwith) a Mariam yn ddwy gyfnither. Mae'r ddwy yn mynd i'r ysgol, ond "ni allwn fynd i'r dosbarth bob dydd; mae gwaith tŷ sydd angen ein sylw; rydym hefyd yn casglu berdys. Pan mae'n bwrw glaw, mae'r heolydd yn ein hardal yn llithrig iawn. Dywedodd Mam fod angen help." Mae eu cartrefi dan ddŵr o hyd. "Daeth y dŵr o'r afon, yn hallt i gyd. Yn ein pentref ni, mae'r rhan fwyaf o'r tir yn llawn ffermydd berdys, dan berchnogaeth y bobl gyfoethog. Mae ein tad hefyd yn gweithio yno o bryd i'w gilydd." Cerddodd y ddwy rhai cilomedrau yn ofalus drwy'r heol fwdlyd, lithrig, gan gyrraedd yr arglawdd tua chanol dydd. Bydd rhai oriau eto cyn dosbarthu cymorth. "Roedd pobl yn dweud fod y storm hon yn fawr; daeth y tonnau yn uchel a chyflym. Roedd fy nhad a'n hewythrod yn dweud nad ydynt erioed wedi gweld storm gynddrwg. Ni fu rhaid i ni erioed ddod i ofyn am gymorth gan eraill fel hyn. Rydym yn swil. Os awn adref yn waglaw, bydd mam yn dwrdio, a'n tadau'n ddig."

1. Gellid gofyn i ddisgyblion ymchwilio i'r rhesymau pam na all plant fynd i'r ysgol, a'r materion sy'n codi (e.e. tlodi, gwrthdaro, afiechyd, newid hinsawdd). Beth yw'r cysylltiad, dyweder, rhwng diffyg addysg a gwrthdaro? Oes modd dod o hyd i unrhyw straeon am bobl ifanc a gollodd eu haddysg drwy wrthdaro?
2. Defnyddiwch y gadwyn PAM–PAM–PAM (isod)



Gweithgaredd 2.4

Nod

- Cynorthwyo disgyblion i ddeall sut mae gwrthdaro yn atal eraill rhag mynd i'r ysgol.

Bydd angen

- Copi o stori James i gyfeirio ato
- Deunyddiau i wneud arddangosfa
- Papurau newydd i ddisgyblion eu torri. Neu gall disgyblion edrych drwy bapurau newydd yn eu cartref yn ystod yr wythnos a chasglu erthyglau perthnasol. Gellid hefyd chwilio am erthyglau addas ar wefannau papurau newydd ac ar wefan newyddion y BBC (http://news.bbc.co.uk)

Addysg a gwrthdaro (11–14 oed)

Stori James

'Cychwynnodd y cyfan yn 1991,' meddai James. 'Dyna pryd ddaeth y gwrthryfelwyr i'n pentref yn Sir Lofa, Liberia. Ymosodwyd ar fy nhad, a chafodd ei garcharu. Yna gofynnwyd i mi ymuno gyda hwy … Cytunais, oherwydd roeddwn am amddiffyn fy nhad, gan fy mod yn siŵr eu bod yn mynd i'w ladd. Roeddwn yn chwech oed. Anfonwyd ni i ymladd ar y llinell flaen. Bûm yn gwneud hynny dros y bum mlynedd nesaf...does dim byd gwaeth na rhyfel.' Stopiodd James fod yn filwr ar ôl pum mlynedd o ymladd yn y gwyllt. Mae bellach yn 18 oed. Bu'n mynychu'r ysgol ers gadael y llinell flaen. 'Gofynnwyd i mi ymladd eto, ond gwrthodais. Mae fy addysg yn rhy bwysig i mi, ac mae gennyf lawer i'w ddysgu. Os caf addysg, bydd gennyf ddyfodol gwell, llawer gwell na'm gorffennol.'

Cyfweliad ar 20 Mai 2003, Monrovia, Liberia

1. Eglurwch fod plant mewn llawer o wledydd yn colli eu haddysg yn sgil gwrthdaro. Rhowch enghreifftiau megis Israel a Phalestina, Sierra Leone (lle mae nifer o blant yn filwyr) a gwrthdaro Darfur.*
2. Darllenwch stori James (uchod) i'r dosbarth.
3. Gofynnwch i ddisgyblion edrych drwy bapurau newydd a chlustnodi sefyllfaoedd ledled y byd lle mae pobl ifanc yn cael eu hatal rhag derbyn addysg yn sgil rhyfel a gwrthdaro.
4. Gall disgyblion ddefnyddio'r erthyglau i greu arddangosfa. Gellid nodi'r gwledydd a effeithiwyd ar fap o'r byd.

* Am fwy o wybodaeth am y gwledydd hyn gweler www.oxfam.org.uk/oxfam_in_action

Pam na allant fynd i'r ysgol

Nid oes ysgol yn fy mhentref. Mae ysgol yn y pentref nesaf, ond mae hynny bum milltir i ffwrdd. Mae'n rhy bell i gerdded bob dydd.

Dwi ddim yn siŵr a fyddaf yn dychwelyd i'r ysgol y tymor nesaf. Nid oedd glaw, ac mae cnydau fy nhad wedi methu. Efallai y bydd yn rhaid i mi weithio i ennill arian i'r teulu.

Bu farw fy nhad pan oeddwn yn saith oed. Roedd ganddo fferm fechan i'n cynnal. Pan fu farw, roedd yn rhaid i mi adael yr ysgol i helpu yn y cartref, a gofalu am fy mrawd a'm chwiorydd fel bod modd i mam weithio ar y fferm.

Mae gennyf bedwar o frodyr a chwiorydd. Gall fy rhieni fforddio anfon dau i'r ysgol. Y ddau frawd sy'n mynd. Rydw i a'm chwiorydd yn aros adref.

Mae 60 o blant yn fy nosbarth. Nid oes digon o athrawon.

Rwy'n tyfu coffi. Nid oeddwn yn cael fawr ddim arian am y cnwd, felly nid oedd modd i mi anfon y plant i'r ysgol. Bellach rwy'n gwerthu'r coffi i gwmni Masnach Deg, gyda gwarant am bris da. O leiaf gallaf fforddio i ddau o'm plant fynd i'r ysgol nawr.

Ni aeth fy rhieni i'r ysgol. Nid ydynt yn medru darllen nac ysgrifennu. Maent am i mi fynd i'r ysgol, i gael swydd dda. Ond nid oes modd iddynt fforddio talu'r ffioedd angenrheidiol.

Rhaid i mi fynd dwywaith y diwrnod i gasglu dŵr o'r pwmp llaw. Mae'r pwmp dwy gilomedr i ffwrdd, ac yn aml rhaid i mi aros fy nhro. Rwy'n gwneud hyn cyn mynd i'r ysgol yn y bore, felly rwy'n hwyr yn aml, ac yn colli llawer o'm gwersi. Mae'n waith caled gorfod casglu dŵr ar ôl ysgol, a cheisio cael amser i wneud gwaith cartref.

Mae angen arian ar gyfer gwisgoedd ysgol, esgidiau, llyfrau, pensiliau a bagiau ysgol. Ni fydd modd i'm tad dalu am y rhain i gyd!

Llwyddiannau Addysg

Roedd partneriaeth gref rhwng llywodraeth, cyfranwyr a chymdeithas sifil yn hanfodol wrth sicrhau'r gwelliant cyflym yn y mynediad at addysg gynradd yng Ngweriniaeth Tanzania ers cytuno ar y chwe nod yn fframwaith gweithredu Dakar, 2000. Yn 2001 penderfynodd y llywodraeth ddileu ffioedd ysgol gynradd, a lansiwyd rhaglen i wella mynediad a safon ar lefel cynradd. Prif elfennau'r rhaglen oedd:

- Cynyddu gwariant ar addysg, gan ganolbwyntio ar addysg gynradd.
- Adeiladu ac adnewyddu ysgolion drwy grantiau datblygu ysgol. Rhwng 2002 a 2004 adeiladwyd 30,000 ystafell ddosbarth newydd.
- Recriwtio athrawon ac uwchraddio staff cyfredol. Recriwtiwyd 32,000 o athrawon cynradd rhwng 2002 a 2004.
- Talodd grantiau am ddeunyddiau dysgu ac addysgu, gan gynnwys llyfrau, gan helpu i ddarparu arian ar gyfer costau cynnal ysgol ac i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon.

Sut i weithredu

Mae llwyddiannau fel yr un uchod wedi digwydd drwy bartneriaeth rhwng gwledydd sy'n cyfrannu, megis y DU, a gwledydd sy'n datblygu, megis Tanzania. I sicrhau fod ein llywodraeth yn parhau i gefnogi prosiectau fel hyn mae cyrff anllywodraethol fel Oxfam yn gweithredu i atgoffa'r rhai mewn grym am eu haddewidion. Dyma awgrymiadau am gamau y gall myfyrwyr eu cymeryd i gefnogi prosiectau fel hyn.

Camau

- Ymrwymo at 1GOAL: Send my friend to school erbyn y diwrnod gweithredu (Mehefin 11 2010).
- Cynnal dathliadau seremoni agoriadol Cwpan y Byd yn eich ysgol – efallai cynnal gem fach Cwpan y Byd.
- Gwahodd eich AS i'r ysgol, i ddangos pa mor bwysig yw addysg yn eich barn chi, a gofyn iddynt gefnogi NDM 2.
- Cysylltu dros y rhyngrwyd gydag ysgol arall a rhannu gwersi. Gall hyn fod yn y DU neu wlad arall.
- Cyflwyno gwasanaeth i weddill y flwyddyn/ysgol am yr hyn a ddysgwyd am NDM 2.
- Addysg cymheiriaid, defnyddiwch yr hyn a ddysgwyd i ddysgu dosbarth arall am NDM 2.

Codi arian

- Darllen noddedig – gosod targed am faint o lyfrau y gellid eu darllen mewn wythnos. Rhaid bod yn heriol er mwyn bod yn werth ei wneud.

NODER Cofiwch ein hysbysu am unrhyw gamau gennych chi neu eich disgyblion.education@oxfam.org.uk

Am fwy o adnoddau Addysg i bawb ewch at:

www.oxfam.org.uk/education/resources/developing_rights

www.oxfam.org.uk/education/resources/bring_on_the_world

Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosibl i ysgolion a grwpiau ieuenctid, ac rydym am asesu effaith ein gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddiwch y slip isod i'n hysbysu am eich gwersi a phrosiectau NDM neu anfonwch ebost at education@oxfam.org.uk

……✂……

Enw Athro:

Enw a Chyfeiriad Ysgol:

Cod Post:

Ebost*

Nifer o ddisgyblion sy'n dysgu am yr NDM:

Oedran disgyblion:

Disgrifiad addysg NDM:

Dychwelwch y slip hwn at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion Oxfam
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

*Nodwch eich cyfeiriad ebost er mwyn derbyn negeseuon oddi wrthym am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Gallwch dynnu eich enw oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg.

Hoffem eich hysbysu am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, os fyddai'n well gennych beidio derbyn gwybodaeth o'r fath, anfonwch ebost at changes@oxfam.org.uk, ffoniwch 0300 200 1300 neu ysgrifennwch at Cyswllt Cefnogwyr, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.